

Ffurflen Amddiffyn

(trefn meddiannu gyflymedig)
(tenantiaeth fyrddaliadol sicr) lle bo'r
eiddo wedi'i leoli'n gyfan gwbl neu'n
rhannol yng Nghymru

| | |
|---------------------------------|-----------------|
| Enw'r llys | Rhif yr Hawliad |
| Enw'r Hawlydd | |
| Enw'r Diffynnydd (Diffynyddion) | |

I'r Diffynnydd

Darllenwch y ffurflen hawlio a'r holl bapurau a gyflwynwyd gyda hi cyn llenwi'r ffurflen hon.

Mae rhai o'r cwestiynau yn y ffurflen hon yn cyfeirio at rifau adrannau yn y ffurflen hawlio. Bydd yn ddefnyddiol ichi gael y ffurflen honno wrth law pan fyddwch yn ateb y cwestiynau.

Sylwch os ydych chi wedi llenwi adran 1 y ffurflen hawlio am eich bod yn denant mewn eiddo sy'n cael ei osod dan denantiaeth fyrddaliadol sicr isradd, dylech ateb cwestiwn 1 a chwestiwn 6 ymlaen yn unig.

Os na allwch roi dyddiadau penodol, nodwch yn glir mai syniad bras o'r dyddiadau a roddir. Ym mhob achos, **rhaid** ichi lenwi a llofnodi'r datganiad gwirionedd.

Ysgrifennwch yn glir a defnyddiwch inc du. Os nad oes digon o le i ateb, gallwch barhau ar y dudalen olaf.

1. Ai chi yw'r tenant(iaid) a enwir yn y cytundeb tenantiaeth, gyda'r llythyren 'A' (neu 'A1'), ynghlwm wrth y ffurflen hawlio?

Ie Na

A yw'r cytundeb tenantiaeth hwnnw (neu a yw'r ddau) yn nodi telerau presennol eich tenantiaeth (oni bai am unrhyw newidiadau i'r rhent neu hyd y denantiaeth)??

Ydy Nac Ydy

Os Nac ydy, nodwch pa delerau sydd wedi newid, yn ogystal â beth yw'r newidiadau:

2. A ydych chi'n cytuno mai'r dyddiad a nodir gan yr hawlydd yn adran 2 y ffurflen hawlio yw'r dyddiad y dechreuwyd y denantiaeth?

Ydw Nac Ydw

Os Nac ydw, ar ba ddyddiad y dechreuodd y denantiaeth?

3. Os yw'r hawlydd wedi llenwi adran 3 y ffurflen hawlio, a gawsoch y rhybudd (copi ynghlwm wrth y ffurflen hawlio, gyda'r llythyren 'B') ac, os felly, pa bryd?

Do Na Amherthnasol

Os Do, rhowch y dyddiad

4. A ydych chi'n cytuno â gweddill yr hyn a ddywedir yn adran 3 y ffurflen hawlio? Ydw Nac Ydw

Os Nac ydw, nodwch beth ydych chi'n anghytuno ag ef, a pham

5. A ydych chi'n cytuno fod yr hyn a ddywedir yn adran 4 y ffurflen hawlio yn gywir? Ydw Nac Ydw

Os Nac ydw, nodwch beth ydych chi'n anghytuno ag ef, a pham

6. A gawsoch chi'r rhybudd y cyfeirir ato yn adran 5 y ffurflen hawlio, (copi ynghlwm wrth y ffurflen hawlio gyda'r llythyren 'C')? Do Naddo

Os Do, rhowch y dyddiad.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | D | M | M | B | B | B | B |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

7. A ydych chi'n cytuno fod yr hyn a ddywedir yn adran 6 y ffurflen hawlio yn gywir? Ydw Nac Ydw

Os Nac ydw, nodwch beth ydych chi'n anghytuno ag ef, a pham

8. A ydych chi'n cytuno fod yr hyn a ddywedir yn adran 8 y ffurflen hawlio yn gywir? Ydw Nac Ydw

Os Nac ydw, nodwch beth ydych chi'n anghytuno ag ef, a pham

9. A ydych chi'n cytuno fod yr hyn a ddywedir yn adran 9 y ffurflen hawlio yn gywir? Ydw Nac Ydw

Os Nac ydw, nodwch beth ydych chi'n anghytuno ag ef, a pham

10. A ydych chi'n cytuno fod yr hyn a ddywedir yn adran 10 y ffurflen hawlio yn gywir? Ydw Nac Ydw

Os Nac ydw, nodwch beth ydych chi'n anghytuno ag ef, a pham

11. Os oes gennych unrhyw reswm arall, na sonnir amdano uchod, dros honni nad oes gan yr hawlydd yr hawl i adennill meddiant o'r eiddo, yna eglurwch isod.

Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw

12. A wnaethoch chi wneud unrhyw daliad i'r Landlord cyn i'r cytundeb tenantiaeth ddechrau oni bai am rent neu flaendal?

Do Naddo

Os Do, ar gyfer beth oedd y taliad?

13. (a) Os Do, a yw'r arian wedi cael ei ad-dalu'n llawn?

Do Naddo

(b) Os mai'r ateb i 19(a) yw 'Do', nodwch y dyddiad pan gawsoch yr arian

- (c) Os mai'r ateb i 19(a) yw 'Naddo', ydych chi wedi cytuno i'r arian (neu unrhyw ran ohono sydd heb gael ei ad-dalu ichi) gael ei ddefnyddio ar gyfer rhent neu flaendal?

Do Naddo

(d) Os mai'r ateb i 19(c) yw 'Do', pryd wnaethoch chi gytuno i hynny?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | D | M | M | B | B | B | B |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Gohirio'r meddiannu

14. A ydych chi'n gofyn i'r llys, os yw'n gwneud gorchymyn meddiannu, i ganiatáu mwy na 14 diwrnod ichi adael yr eiddo gan y byddech yn dioddef caledi eithriadol?

Ydw

Nac Ydw

Os Ydw, eglurwch pam y byddech yn dioddef caledi eithriadol.

Nodwch tan pryd yr hoffech gael caniatâd i aros yn yr eiddo. (Ni all y llys ganiatáu mwy na 42 diwrnod ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud).

hyd at _____ 20 ____

Talu costau

15. Os bydd y llys yn gorchymyn ichi ildio meddiant, a ydych chi'n cytuno y dylech gael eich gorchymyn i dalu costau'r hawlydd?

Ydw

Nac Ydw

Os Nac ydw, nodwch beth ydych chi'n anghytuno ag ef, a pham

16. Os bydd y llys yn gorchymyn ichi dalu costau'r hawlydd, a ydych chi'n gofyn iddo ganiatáu mwy na 14 diwrnod ichi dalu?

Ydw

Nac Ydw

Os Ydw, rhowch fanylion eich modd (os bydd angen, defnyddiwch y dudalen olaf i barhau)

Gwybodaeth Ychwanegol

((Nodwch rif yr adran y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi))

Llofnod _____

Dyddiad

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | D | M | M | B | B | B | B |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

(Gallwch barhau ar ddalen ychwanegol os oes angen, gan gofio ei llofnodi a nodi Rhif yr Hawliad ar frig y dudalen)